DIM PELLACH!

Meira Shakespear

Ffens Grawia, Eryri gan Séan Hagerty
trwy ganiatâd caredig Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Ydych chi wedi gweld ffens fel hon erioed, fel rhes o waywffyn yn gwarchod y tir? Glywsoch chi ei llais caled, llym, yn herio'r praidd llwglyd?

Defaid Dafydd Huws, ia? **Dim pellach!** Dim ond defaid Robin Tomos sy'n cael pori yr ochr yma.

Mewn gwlad neu dref, yr un yw swydd pob clawdd a gwrych, pob mur, ffens, perth a wal - gwarchod y terfyn rhwng dau ddarn o dir. Mae cloddiau terfyn o bob math yn rhan o'r byd o'n cwmpas, ac maent yn gallu dweud llawer wrthym am y wlad a'i phobl. Neges debyg sydd gan y berth fach dwt yn y dref :

Dim pellach, Pero, gardd Siân Preis ydy hon.
Dim mynediad i gi bach fel ti!

Holi a dyfalu (gwaith unigol, pâr, neu grŵp.)

- **Beth sydd yn neilltuol am y ffens yn y llun?**
- **Ble mae hi?**
- **Pwy wnaeth ei hadeiladu?**

Gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth yn ddigon rhwydd dim ond i chi arsylwi, holi a dyfalu.

Meddyliwch am y cwestiwn cyntaf (1a) cyn edrych ar yr ateb cyntaf (1b), yr ail gwestiwn (2a) cyn yr ail ateb (2b) ac felly ymlaen i'r diwedd.

1a Beth ydy deunydd y ffens?
2a Pam nad oes cloddiau terfyn fel hyn ym mhobman?
3a Ble mae'r deunydd hwn i'w gael?

4a Pam peidio â thyfu gwrych neu berth fyw?
5a Beth oedd y rhesymau dros ddewis y math hwn o glawdd terfyn?

Atebion

1b Crawiau - darnau o lechfaen garw.
2b Does dim creigiau llechfaen ymhobman, a byddai'r crawiau yn drwm a drud i'w cario ymhell.
3b Yn bennaf yng Ngwynedd a Meirionnydd, yng Ngogledd-Orllewin Cymru.
4b Tir anaddas, rhy wlyb a chreigiog; hinsawdd rhy erwin a gwyntog.
5b Deunydd rhad, lleol; dull syml, cyfleus o adeiladu; terfyn da i reoli defaid.

Felly, gallwn ddweud:

- Mae'r ffens hon yn neilltuol am ei bod yn perthyn i ardal arbennig, wedi ei gwneud o ddeunyddiau crai lleol, cyfleus.
- Mae hi rhywle mewn ardal chwarelydda, mae'n debyg felly yng Ngogledd-Orllewin Cymru.
- Cafodd ei chodi gan ddynion ymarferol am ei bod yn gwneud ei gwaith yn berffaith ac am ei bod yn gyfleus i'w chodi o ran amser, llafur ac arian.

Uwchben Llanberis

Beth am y ffens wiar hon?
Dydy hon ddim yn tyfu o'r ddaear fel gwrych, nac yn defnyddio cerrig lleol. Mae rhai tebyg i'w gweld ledled y wlad, yn estron a heb fawr o gymeriad - OND **mae hi'n ateb ei diben. Mae hi'n rhad, ac yn hawdd a chyflym i'w chodi o ddeunyddiau cyfleus.**

BETH WNAWN NI FELLY?
Gallwn ddewis y rhad a'r cyfleus, neu fynnu gwarchod yr amgylchedd trwy ddangos parch at gymeriad ardal. Hyd y bo modd, mae'n bwysig fod cloddiau newydd yn cydfynd â'r traddodiad lleol. Y broblem yw cael ffermwyr, adeiladwyr ac awdurdodau i wario ar wrychoedd, muriau a ffensys addas, yn hytrach na dewis y dull rhataf o gyfarfod â'r gofyn. Mae'r Parciau Cenedlaethol, cyrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a nifer o awdurdodau lleol yn gosod rheolau clir, ac mae peth cymorth ar gael i ffermwyr sydd yn rhan o gynllun Tir Gofal.

Yr hen ....

Hen fur ger Dolgellau

Yma, mae'r cerrig a'r mwsogl yn cyfleu henaint parchus a'r mur ei hun fel pe bai'n rhan o'r tirwedd ers cyn cof.

.... a'r newydd

Clawdd diweddar ger Bangor

Codwyd y clawdd o gerrig a phridd yn y dull traddodiadol, gyda gwrych byw yn tyfu ohono. Trwy'r blynyddoedd, daw hwn i edrych fel pe bai wedi bod yma ers blynyddoedd maith.

Geirfa

(geiriau wedi'u tanlinellu yn unig. Defnyddiwch eiriadur os oes angen chwilio am ystyr geiriau neu dermau eraill.)

ardal chwarelydda...	*quarrying district*	llafur...	*gwaith, labour*
cyfleus...	*convenient, easily available*	llechfaen...	*slate*
cynhenid...	*native, natural*	llwglyd, newynog...	*hungry*
estron, dieithr...	*alien, foreign*	neilltuol arbennig...	*special, particular*
(g)erwin...	*harsh*	praidd...	*flock*

Nodyn i athrawon

Pwrpas yr ymarfer sy'n dilyn ydy cael disgyblion i sylwi ar derfynau gwahanol ac ystyried eu cyfraniad a'u haddasrwydd i'r amgylchedd.

Gellid trefnu taith gwaith maes arbennig i gwblhau'r dasg neu gellid ei chynnwys fel rhan o daith arall - i Lanllyn neu Langrannog, dyweder. Gellid hefyd ei gosod fel gwaith unigol dros gyfnod – gan gynnwys gwyliau, efallai. Byddai'r cydweithio teuluol yn elfen i'w chroesawu o safbwynt codi ymwybyddiaeth o gymdeithas a'r amgylchedd.

Yr athro ei hun sydd i benderfynu sut i ddefnyddio ffrwyth yr arolwg ond byddai gwaith llunio mapiau a graffiau i arddangos canlyniadau dosbarth yn bosibilrwydd amlwg. Mae posibiliadau cyflwyno gwybodaeth, mynegi barn, ymateb i safbwyntiau eraill a dod i gasgliad cytbwys, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yr un mor amlwg.

Enw:	**Dosbarth:**

AROLWG CLODDIAU

Agorwch eich llygaid, edrychwch -- a nodwch y cloddiau a'r terfynau sydd yn ardal eich cartref ac hefyd mewn rhannau eraill o'r wlad.

Ar ochr arall y dudalen, mae tablau i chi eu llenwi i gofnodi canlyniadau eich arolwg o gloddiau o bob math, yn y wlad ac mewn tref neu bentref.

Cyn dechrau, gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth yn union yw'r canlynol:

gwrych/perth, clawdd, ffens (wiar/pren), mur/wal, terfyn*
(+ unrhyw rai eraill y dewch ar eu traws.)

* Mae ystyr *clawdd* yn medru amrywio o un rhan o Gymru i'r llall.

Cewch wybod gan eich athro pryd a sut y bydd angen i chi gwblhau'r arolwg ac hefyd beth fyddwch yn ei wneud â'ch canlyniadau wedyn.

Dyma ychydig o bwyntiau i'ch cynorthwyo i gasglu gwybodaeth:

Yng nghefn gwlad, sylwi a dyfalu sydd bwysicaf.
Bydd stryd neu stad o dai unffurf yn cyfrif fel UN enghraifft ar eich taflen.

Mae'r ddwy golofn olaf (Golwg ☺ neu ☹) i chi nodi eich barn bersonol os ydy'r clawdd yn addas i'w gefndir ac yn plesio e.e.

wal frics coch o flaen bwthyn carreg mewn pentref ..... ☹

yr un wal o flaen tai newydd o'r un brics mewn tref ..... ☺

Mae un enghraifft yn barod ar y ddau dabl i ddangos i chi beth i'w wneud.

AROLWG CLODDIAU

Yn y wlad

	Lle	Pwrpas	Deunydd	Rheswm dros y farn hon	Golwg ☺ neu ☹
1	Ynys Môn – A55	Gwahanu priffordd a ffermydd	Cerrig garw cynhenid	Mynd efo'r cloddiau o gwmpas.	☺
2					
3					
4					

Yn y dref

	Lle	Pwrpas	Deunydd	Rheswm dros y farn hon	Golwg ☺ neu ☹
1	Aberystwyth (Stryd Oes Fictoria)	Gwahanu gardd a phalmant	Blociau brîs	Yn wahanol i'r gweddill.	☹
2					
3					
4					